**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Mehefin 2023 ym Mehncadlys Tân ac Achub Llanelwy ac yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam |

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MAWRTH 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd materion yn codi.

**6. MONITRO PERFFORMIAD: EBRILL 2022 – MAWRTH 2023**

6.1 Cyflwynodd DBST Forshaw bapur Monitro Perfformiad Ebrill 2022 – Mawrth 2023 sy'n anelu at darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

6.2 lNodwyd na fu unrhyw farwolaethau damweiniol yn ymwneud â thanau mewn cartrefi yn ystod 2022/23 a chytunwyd bod hyn i'w ddathlu.

6.3 Gofynnodd un Aelod am wybodaeth mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth er mwyn lleihau achosion o danau gwyllt. Cadarnhaodd y PSTC Millington fod partneriaid yn cyfrannu'n fawr tuag ag atal Tanau Gwyllt, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Teimlwyd bod hyn nid yn unig yn creu perchnogaeth a rennir o'r mater ond yn galluogi partneriaid i rannu adnoddau megis hofrennydd Cymru gyfan.

6.4 Cadarnhaodd y DBST Forshaw fod y dulliau hyfforddi ar gyfer ymladd tanau gwyllt hefyd wedi esblygu i'w gwneud yn fwy effeithlon.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad**

**7. DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS**

7.1 Cyflwynodd AM Anthony Jones y Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd a gweithgareddau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ers yr adroddiad trosolwg a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2023.

7.2 Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod cyfarfod y gweithgor ar 22 Mehefin 2023 i drafod yr opsiynau posibl sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi'i agor i'r holl Aelodau, ac y byddai'n cael ei gynnal ar sail hybrid.

7.3 Pwysleisiwyd na fyddai angen unrhyw benderfyniadau i weithredu newidiadau yn ystod y cam cyn-ymgynghori hwn.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r cynnydd a wnaed gan y Gweithgor Darpariaeth Frys.**

**8. YMCHWILIAD I LARYMAU TÂN AWTOMATIG**

8.1 Cyflwynodd y PSTC Millington y papur ar yr Ymchwiliad i Larymau Tân Awtomatig, a oedd yn anelu at roi trosolwg i'r Aelodau o'r canfyddiadau yn dilyn archwiliad diweddar o'r ymateb i alwadau tân diangen a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

8.2 Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod unrhyw arbedion ariannol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag arbedion cyfle yn hytrach nag arbedion arian parod.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys adroddiad lleihau Galwadau Tân Diangen Archwilio Cymru.**

**9. Y GOFRESTR RISG**

9.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw bapur y Gofrestr Risg a oedd yn crynhoi cynnwys cofrestr risg strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risg Strategol.

9.2 Er bod cynnwys y Gofrestr Risg yn cael ei adrodd i'r Awdurdod ddwywaith y flwyddyn, nodwyd bod Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn adolygu'r Gofrestr Risg Strategol gyfan yn fwy rheolaidd.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r risgiau strategol a nodwyd sy'n wynebu'r Awdurdod, a'r camau lliniaru.**

**10 STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL 2023-2030**

10.1 Cyflwynodd y PSTC Millington Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 a oedd â'r nod o gydgrynhoi ymrwymiadau cyfreithiol a pholisi presennol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) mewn perthynas â rheolaeth amgylcheddol, a nododd sut roedd y Gwasanaeth yn bwriadu eu cyflawni.

10.2 Gofynnwyd pa adnoddau ychwanegol fyddai eu hangen er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Amgylcheddol, ac ymatebodd y PSTC Millington fod y costau'n cael eu cyfrifo ar hyn o bryd. Byddai'r cynigion yn cael eu hystyried mewn modd cymesur a fyddai'n galluogi'r camau gofynnol i gael eu cymryd yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl. Byddai unrhyw gostau'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod eu trafod a'u cadarnhau.

10.3 Roedd penodi Tim Christensen yn Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd y Gwasanaeth wedi galluogi cynnydd esbonyddol yn y maes hwn gan ei fod wedi dod â chyfoeth o arbenigedd gydag ef.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**ii) cadarnhau'r Strategaeth Amgylcheddol arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2023-2030 i'w chymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod Llawn ar 17 Gorffennaf.**

## 11 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR RWYMEDI O RAN GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN YNG NGHYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN YNG NGHYMRU

11.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y papur ar Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Bwriad y papur hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynigion ar gyfer rhwymedi o ran Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar sail oedran, ac roedd yn nodi'r ymatebion arfaethedig i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod.

11.2 Tynnwyd sylw'r Aelodau at gwestiynau 2, 4, 11 i 13 cynhwysol a 25, ac ymateb y Gwasanaeth i'r cwestiynau hynny.

11.3 Nodwyd bod hwn yn faes cymhleth iawn a diolchwyd i'r PSTC MacArthur a'i thîm am y darn hwn o waith.

**11.4 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cefndir yr ymgynghoriad; a**

**(ii) cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad a ddisgwylir erbyn 23 Mehefin 2023.**

## 12 MATERION BRYS

12.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

Diolchwyd i'r Aelodau am eu presenoldeb.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:50.